



Cynllun Pwnc Gwyddor Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol

Rhagfyr 2018

CYMRÆG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd – destun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg <http://bit.ly/2rtglxT>.

Mae’r Cynllun Pwnc Gwyddor Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Mae’r Cynllun hwn yn weithredol mewn cyfnod o newid sylweddol o fewn maes cymdeithaseg a’r sector addysg uwch. Mae Deddf Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a pholisiau eraill sy’n delio â materion cymdeithasol megis tai, iechyd, teuluoedd ac addysg yn destunau pwysig. Hefyd, ceir trafodaethau byw iawn ar draws y Deyrnas Unedig yn y wasg a’r cyfryngau am bynciau megis tlodi plant, banciau bwyd a digartrefedd sy’n tanlinellu diddordeb pobl yn y maes. Yn ein prifysgolion, mae *Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg* sydd dan ofal Prifysgol Bangor, yn cael ei greu gydag arian y Coleg; gwelir datblygiad pwrpasol am y tro cyntaf erioed mewn addysgu Cymdeithaseg yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae’r rhain, a mwy, yn cyfrannu at wneud astudio modiwlau Gwyddor Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol yn y Gymraeg yn gynrig a allai fod yn berthnasol a diddorol i ddarpar fyfyrwyr.

Bu datblygiadau calonogol o ran estyn y ddarpariaeth a thargeddu myfyrwyr newydd ers cymeradwyo’r Cynllun Pwnc cyntaf. Er enghraifft, ym Mhrifysgol Bangor, gwelwyd llwyddiant o ran denu myfyrwyr o raddau iechyd cyfrwng Saesneg o fewn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol i astudio modiwlau ar bolisi a chymdeithaseg iechyd. Eleni, cynigiwyd modiwl o fewn y meysydd hyn i fyfyrwyr o’r Ysgol Addysg sydd yn astudio ar gyfer gradd mewn Astudiaethau Plentynod, gan godi nifer yn y dosbarth i 24. Cyn cymeradwyo’r Cynllun pwnc cyntaf, nid oedd dim darpariaeth Gymraeg i israddedigion yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Ers hynny, bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth Gymraeg i israddedigion, gyda’r Ysgol yn cynnig hyd at 18 credyd yn y Gymraeg yn y flwyddyn gyntaf a 9 credyd yn yr ail flwyddyn yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18.

Proses

Cam cyntaf y broses o lunio’r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae’r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu

Yn ystod cyfnod y cynllun pwnc blaenorol, gwelwyd canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, gyda Phrifysgol Bangor yn cynnig darpariaeth 100% drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn rhannu modiwlau â graddau eraill. Rhoddwyd hefyd seiliau a strwythur ar ddarparu modiwlau a seminarau Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o’r radd flaenaf i’r myfyrwyr sy’n dewis astudio o leiaf cyfran o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i’r egwyddor honno.

Gyda newid pwyslais y Coleg o gyllido darlithwyr unigol i gyllido darpariaeth o fewn prifysgol trwy'r grantiau pynciol, bydd y Cynllun yn datblygu ffyrdd o gynnig cefnogaeth i'r addysgwyr yn y sefydliadau sy'n darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Strwythur y Cynllun

Mae Cynllun Pwnc Gwyddor Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i faes Gwyddor Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol.

Bu datblygiad yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Gwyddor Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol. Gellir astudio 120 o gredydau y flwyddyn yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor a gwelwyd rhannu modiwlau Polisi Cymdeithasol ar draws wahanol adrannau gan gynyddu nifer y myfyrwyr. Bydd cydweithio rhwng disgyblaethau eraill, megis nyrsio.

Cefnogodd y Coleg fyfyrwr PhD cyfrwng Cymraeg yn y maes ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'r myfyrwr hwnnw bellach yn ddarlithydd yn yr adran gan gynnig darpariaeth Gymraeg. Mae 3 myfyrwr PhD cyfrwng Cymraeg ym Mangor (heb nawdd CCC) a cheir cwrs ôl-radd MA ym Mangor ar Gynllunio Ieithyddol.

Ariannodd y Coleg ddwy gynhadledd bwysig yn y maes, un ar thema'r Credyd Cynhwysol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor a'r llall ar thema tlodi plant a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Denodd y ddwy gynhadledd arbenigwyr a gwleidyddion i siarad, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, academyddion a myfyrwyr.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol yn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol a ph'un a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae Prifysgol Bangor yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyrwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

| Sefyllfa Gyfredol (2016/17) | | | |
|-----------------------------|--|---|---|
| Sefydliad Addysg Uwch | Darpariaeth | Staff | Myfyrwyr ¹ |
| Prifysgol Bangor | O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. | 0 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 9 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 0 aelod staff rhan-amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. 5.5 aelod staff llawn amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. ² | 93 yn gallu siarad Cymraeg ³ BI1–BI3. O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Prifysgol Caerdydd | <i>Mae'n bosib i rai myfyrwyr astudio hyd at 12 credyd yn BI1 a 9 credyd yn BI2. (Newydd ddechrau mae'r ddarpariaeth Gymraeg).</i> | <i>1 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg.</i> 11 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 0 aelod staff rhan-amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. 1 aelod staff llawn amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | <i>57 gallu siarad Cymraeg BI1–BI3.</i> <i>O leiaf 15 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Llai na 6 myfyrwyr yn yr ail a'r drydedd flwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i> |

¹ Gwybodaeth yn seiliedig ar y data a oedd yn gyfredol yn 2016/17 ac yn gyson â'r dull adrodd arferol i HESA.

² O ganlyniad i ailstrwythuro yn y brifysgol, mae'n bosib y bydd y sefyllfa staffio yn newid o ran lle y gosodir y staff hyn o fewn adrannau.

³ Nid oes modd cadarnhau a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

Profiad Myfyrwyr

- Dangosodd gwaith ymchwil TEF (*Teaching Excellence Framework*) a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017 bod myfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs yn y Gymraeg yn fwy tebygol o gael swyddi gwell ac yn llai tebygol o adael eu cyrsiau yn gynnar o gymharu â myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau uniaith Saesneg.⁴
- Bydd gweithgareddau cwrs-gysylltiedig yn cael eu trefnu ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gan gynnwys cynadleddau cenedlaethol.
- Lle y bydd galw, bydd y Cynllun yn cefnogi modiwlau cydweithredol sy'n rhoi ystod ehangach o'r pwnc o fewn prifysgol yn lleol ac ar draws prifysgolion – mae hyn yn opsiwn gan gydweithio gydag Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth a'r Gymraeg yng Nghaerdydd; ac ym Mangor yn yr Ysgol newydd sy'n cwmpasu Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas.
- Mae angen pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo Cymdeithaseg yn y Gymraeg ymysg myfyrwyr ysgol a cholegau Addysg Bellach.
- Bydd aelodau'r Panel yn cefnogi a datblygu'r angen am ragor o adnoddau agored newydd yn y Gymraeg i fyfyrwyr Cymdeithaseg ar Lyfrgell Adnoddau'r Coleg.
- Bydd datblygu ymhellach yr ymdeimlad o berthyn a rhannu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â byd Cymdeithaseg a datblygu polisi Cymdeithasol unigryw i Gymru yn rhan o waith y Panel dros y cyfnod nesaf. Gwneir hyn drwy wahanol gyfryngau megis cylchlythyr, cyfrif Twitter neu ffyrdd eraill.
- Nodir bod myfyrwyr yn hoff o amrywiaeth profiadau dysgu. Nodir hefyd bod manteision i ddosbarthiadau a seminarau llai gyda pherthynas agosach rhwng y myfyrwyr a'r darlithydd yn helpu i gadw myfyrwyr o gefndiroedd llai academaidd mewn addysg uwch.⁵
- Er mwyn ehangu dealltwriaeth y myfyrwyr, bydd modiwlau Cymraeg yn amlygu ac yn ymgorffori'r dealltwriaeth o'r ffordd y mae polisi Cymdeithasol yng Nghymru yn wahanol i bolisi Lloegr. Gall y gwahaniaethau cynnil hyn gael eu colli mewn darlithoedd cyfrwng Saesneg. Golyga hyn fod gan y myfyriwr Cymraeg sgiliau ychwanegol wrth fynd i'r byd gwaith.
- Bydd deiliaid ysgoloriaethau israddedig y Coleg yn astudio tuag at y Dystysgrif Sgiliau Iaith ac yn cael mynd ar gyfnod o brofiad gwaith ar leoliad, a fydd yn gaffaeliad iddynt wrth iddynt ymgeisio am swyddi ar ôl graddio.

⁴ <http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/267779-myfyrwyr-cyrsiau-cymraeg-yn-cael-swyddi-gwell>

⁵ <http://theconversation.com/this-is-how-to-stop-students-dropping-out-of-university-83250>

| | |
|--------------------------|---|
| <p>Darlithwyr</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae amrediad o ddarlithwyr sy'n medru'r Gymraeg yn dysgu Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Bangor. Penodwyd aelod newydd o staff ym Mangor a arweiniodd at gynnig modiwlau newydd a chefnogi'r strategaeth o ran darparu ar gyfer myfyrwyr o raddau eraill. Dechreuwyd cynnig darpariaeth ffurfiol yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd dros y tair blynedd ddiwethaf. • Buddsoddodd y Coleg mewn 1 myfyriwr PhD sydd nawr yn darlithio yn y maes. • Mae datblygu perthynas bellach ag arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn y maes yn uchelgais gan aelodau'r Panel. Rhagwelir gwneud defnydd o arbenigwyr yn y maes mewn darlithoedd a seminarau Cymraeg dros gyfnod y Cynllun. • Noder bod darlithwyr ym Mangor a Chaerdydd eisoes yn cynnal ymchwil academaidd sy'n cael ei noddi gan ESRC a Llywodraeth Cymru, sy'n cyfrannu at y gwaith addysgu ac at enw da addysg Gymraeg a Chymreig. Bydd y Cynllun yn edrych i gefnogi a datblygu'r gwaith hwn. |
| <p>Cwricwlwm</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Panel yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth modiwlau craidd yn y Gymraeg ar gyfer darlithoedd ar seminarau. Bydd y Panel yn edrych ar ffyrdd o gefnogi modiwlau craidd yn lleol a chenedlaethol a datblygu'r ddarpariaeth graidd yng Nghaerdydd drwy ddatblygu adnoddau ac, os oes galw, drwy rannu darlithoedd. • Gwelir datblygiadau arbenigol Cymreig ym maes Polisi Cymdeithasol yn arbennig ym maes tai, cyfraith plant, trethi newydd unigryw Cymreig, strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2013) Llywodraeth Cymru; strategaeth 'Mwy na Geiriau' ym maes iechyd. Bydd adnabod y newidiadau hyn fel rhan o gwricwlwm a gweithgaredd yn rhan hanfodol o ddarpariaeth Gymraeg. • Mae denu a chadw myfyrwyr llai hyderus eu Cymraeg yn bwysig i lwyddiant addysg Gymraeg. Bydd angen ychwanegu at adnoddau Cymraeg ar-lein er mwyn ei gwneud yn haws i fyfyrwyr astudio yn yr iaith. • Oherwydd elfen gref o orgyffwrdd â Throseddeg fel pwnc, bydd y Panel yn ceisio hwyluso cydweithio agos rhwng darlithwyr a modiwlau. Hwylusir hyn gan y ffaith fod Troseddeg yn rhannu'r un Ysgol â Pholisi/Gwyddorau Cymdeithasol ym Mangor a Chaerdydd. • Yn yr un modd bydd aelodau'r Panel yn agored i gydweithio â chyrsgiau eraill megis Iechyd a Gofal. Bydd y Panel hefyd yn ystyried cynnig modiwlau neu raddau cyfun gyda phynciau yn y Dyniaethau megis Cymraeg, a Gwleidyddiaeth. |

| | |
|---|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen edrych ar gryfhau'r llwybr dilyniant o gwricwlwm israddedig i gefnogi myfyrwyr PhD yn y pwnc. Dylid edrych ar ffyrdd o apelio at fyfyrwyr sydd efallai eisoes mewn gwaith yn y maes ond sydd eisiau cymhwyster ychwanegol, neu ffyrdd o apelio at fyfyrwyr o bynciau eraill. • Mae cyfuno profiad galwedigaethol perthnasol a diddorol yn y Gymraeg yn rhan bwysig o gefnogi sgiliau iaith myfyrwyr ac ehangu eu profiadau. Gwneir ymdrech i ganfod llefydd gwaith Cymraeg eu hiaith gan weithio gyda'r prifysgolion er mwyn hwyluso a phrif-ffrydio hyn. • Bydd modd trefnu bod ymarferwyr yn y maes yn rhoi cyflwyniadau a chynnal modiwlau o dan system newydd y Coleg Cymraeg o gyllido darpariaeth yn y pwnc yn hytrach na chyllido darlithwyr unigol. |
| Canlyniadau Myfyrwyr | <ul style="list-style-type: none"> • Mae canlyniadau'r myfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr o fewn eu hadrannau. Gwelir hyn drwy ganlyniadau gradd ynghyd â thrwy'r nifer o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ennill gwobrwyon am y myfyrwyr gorau/traethodau hir gorau. |
| Adnoddau | <ul style="list-style-type: none"> • Ariannodd y Coleg Cymraeg adnodd sydd yn garreg filltir ym maes Cymdeithaseg Cymraeg, sef 'Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg' a gynhyrchir dan arweiniad Prifysgol Bangor. Mae'r Pecyn wedi ei deilwra'n arbennig er mwyn pontio rhwng myfyrwyr Lefel A a myfyrwyr Blwyddyn 1 yn y prifysgolion. Mae 1 gyfrol wedi ei chyhoeddi a 5 arall ar y gweill. Mae'r rhain ar gael yn agored ar Lyfrgell Adnoddau'r Coleg ac mae modd eu lawrlwytho am ddim i'w hargraffu. • Ceir peth defnydd ar y Llyfrgell Adnoddau defnyddiol a phoblogaidd megis cyfres athonwyr y 'Meddwl Modern'. Mae rhain yn ychwanegu at ddeunydd megis Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg ond mae angen ychwanegu rhagor. • Blaenoriaethir cynhyrchu llawlyfrau yn y meysydd a nodir yn y golofn 'Cwricwlwm', yn enwedig adnoddau cyrsiau sylfaen. • Bydd angen adnoddau ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ôl-radd. • Mae'r newid cyson a welir ym meysydd polisi mewn perthynas â Chymdeithaseg yn golygu bod e-gyhoeddiadau yn adnoddau campus i'r myfyrwyr oherwydd y gellir diweddu'r e-gyhoeddiadau hynny. |
| Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr) | <ul style="list-style-type: none"> • Mae cyflogadwyedd yn hollbwysig i unrhyw bwnc. Bydd angen i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg adlewyrchu hyn. |

| | |
|---|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Mae natur cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn Cymdeithaseg yn golygu bod myfyrwyr Cymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng Cyfraith Cymru a Chyfraith Lloegr, ynghyd â'r polisiau a'r blaenoriaethau gwahanol sydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Daeth hyn yn amlycach gyda Mesur Deddf Cymru 2017 a system dreth sydd yn dechrau ymwahanu Mae hyn yn fantais amlwg i fyfyrwr sy'n dilyn modiwlau cyfrwng Cymraeg. |
| <p>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae diffyg dilyniant addysg Gymraeg o safon Lefel A i ddilyn modiwlau Cymraeg yn y brifysgol yn her i'r pwnc. Mae darlithwyr ym Mhrifysgol Bangor eisoes yn ymweld ag ysgolion, cynnal sesiynau adolygu a sesiynau gyda Bagloriaeth Cymru. Blaenoriaethir meithrin cysylltiadau, a thrwy waith arall y Coleg Cymraeg, blaenoriaethir meithrin cyrsiau llawn neu rannol yn y Gymraeg o fewn colegau Addysg Bellach. • Mae angen sicrhau bod y myfyrwyr hynny sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn astudio'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (h.y. 40 credyd y flwyddyn neu fwy). • Mae angen cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd fel bod y Cynllun yn creu cnewyllyn da o bobl sydd yn teimlo'n gyfforddus wrth addysgu Cymdeithaseg fel pwnc. • Wrth i'r ddarpariaeth ym Mangor rannu ar draws ysgolion newydd o fewn y Brifysgol, bydd yn bwysig parhau i hyrwyddo modiwlau cyfrwng Cymraeg a bod yn agored i'r posibiladau o ran datblygu modiwlau a darpariaeth newydd yn ôl y galw. • Mae angen sicrhau llwybr dilyniant clir i astudiaethau ôl-raddedig gan efallai dargedu myfyrwyr sydd wedi dilyn cwrs israddedig y tu allan i Gymru. • Mae gan adrannau Polisi Cymdeithasol ein prifysgolion brofiad o ysgrifennu adroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru, asiantaethau a chyrrff cyhoeddus eraill. Gall hyn roi cyfle i fyfyrwyr ôl-radd ac israddedig ennill profiad gwaith gwerthfawr gan fanteisio ar eu gallu i ysgrifennu Cymraeg a Saesneg graenus a thynnu ar brofiadau a chyd-destun Cymreig a rhyngwladol. Mae hyn yn cynnig llwybr i gynyddu profiad ac adnabod arbenigwyr yn y maes a dyfnhau cynaliadwyedd y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol | | | |
|--|--|---|--|
| Nod gweithredu | Targedau blwyddyn (2017/18) | Targedau 3 mlynedd (2019/20) | Targedau 5 mlynedd (2021/22) |
| 1. Darpariaeth | Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn ym Mangor a hyd at 18 credyd yn y flwyddyn gyntaf a hyd at 9 credyd yn yr ail flwyddyn yng Nghaerdydd. | Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn ym Mangor a gweithio tuag at 20 credyd ym mhob blwyddyn yng Nghaerdydd. Pwyslais ar gyrsiau ag elfen alwedigaethol glir a modiwlau craidd. | Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 120 credyd ym mhob blwyddyn ym Mangor a 40 yng Nghaerdydd. Darpariaeth ôl-raddedig pwrpasol gan gynnwys darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau ôl-gymhwyso ym Mangor. Darpariaeth israddedig yng Nghaerdydd. Cyfundrefn rhannu gwaith a phrofiad gwaith gyda sefydliadau allanol gydag elfen gref o'r Gymraeg yn y gweithle. |
| 2. Myfyriwr | 45 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3. | 60 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3. | 90 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3. |
| 3. Ysgoloriaethau PhD | O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Cymdeithaseg bob yn ail flwyddyn. | O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Cymdeithaseg bob yn ail flwyddyn. | O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Cymdeithaseg bob blwyddyn. |
| | | | |

| | | | |
|--|--|--|--|
| <p>4. Dilyniant a chyd-weithio gydag ysgolion</p> | <p>Cyswllt â Cholegau Addysg Bellach sy'n addysgu Cymdeithaseg.</p> <p>Magu perthynas â CBAC.</p> <p>Rhannu adnoddau gyda 6ed Dosbarth.</p> <p>Mynd i Wyl Gwyddorau Cymdeithas (ESRC) er mwyn hyrwyddo'r pwnc.</p> | <p>Digwyddiad Cymdeithaseg i Ddisgyblion ysgol / Colegau AB.</p> | <p>Deunydd Cymraeg ar gyfer modiwlau craidd prifysgolion Bangor a Chaerdydd.</p> <p>Rhagor o adnoddau Cymdeithaseg yn y Gymraeg ar gyfer Lefel A (cyd-weithio gyda CBAC) a Blwyddyn 1.</p> |
| <p>5. Datblygu darpariaeth ôl-radd</p> | <p>Cynllunio i ddatblygu modiwlau craidd mewn polisi cymdeithasol rhwng Bangor a Chaerdydd.</p> <p>Cynllunio i ddatblygu darpariaeth alwedigaethol ôl-radd.</p> | <p>Modiwlau craidd ar gael rhwng Bangor a Chaerdydd.</p> <p>Datblygu galwedigaethol ôl-radd ar gael.</p> | <p>Denu pobl broffesiynol i ddilyn cwrs ôl-radd.</p> <p>Cwrs galwedigaethol ôl-radd ar gyfer y sector gwaith.</p> |
| <p>6. Darpariaeth</p> | <p>Cynhyrchu'r Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg</p> | <p>Pecyn PAAC wedi ei gynhyrchu a diweddarau a'i ddefnyddio.</p> <p>Datblygu Esboniadur ar dermau a chysyniadau Cymdeithasol.</p> <p>Llawlyfr ar sgiliau ymchwil i fyfyrwyr sydd yn astudio'r Fagloriaeth Gymraeg fel ffordd o recriwtio myfyrwyr.</p> | <p>Rhagor o adnoddau Cymdeithaseg yn y Gymraeg ar gyfer Lefel A (cyd-weithio gyda CBAC) a Blwyddyn 1.</p> <p>e-Llawlyfr ar brif ddamcaniaethau cymdeithasol.</p> |

| Datblygu'r maes: targedau sefydliadol | | | | |
|--|--------------------------------------|---|--|---|
| Sefydliad | Nod gweithredu | Targedau blwyddyn (2017/18) | Targedau 3 mlynedd (2019/20) | Targedau 5 mlynedd (2021/22) |
| Prifysgol Bangor | Myfyrwyr yn astudio 40 credyd | O leiaf 15 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn. | O leiaf 20 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn. | O leiaf 25 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn. |
| | Nifer Darlithwyr | 5.5 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu yn y Gymraeg. | 9 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu yn y Gymraeg. | 9 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu yn y Gymraeg. |
| | Darpariaeth | O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. | O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. | O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| | Modiwlau | Datblygu modiwlau craidd gyda phrifysgolion eraill. | Rhannu modiwlau craidd fel bo'n briodol. Ailedrych a datblygu elfen alwedigaethol i'r cwrs. Datblygu adnoddau newydd yn y Gymraeg. | Rhai myfyrwyr yn astudio PhD mewn Gwyddor Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol. Adnoddau Cymdeithaseg ar gael i'w rhannu. |

| | | | | |
|---------------------------|-----------------------------------|---|--|---|
| | Adnoddau | Cynhyrchu PAAC | <p>Cydweithio ar ddatblygu'r Esboniadur.</p> <p>Paratoi adnodd i gefnogi sgiliau ymchwil ar gyfer Bagloriaeth.</p> <p>Ymchwilio pa adnoddau newydd ym maes Cymdeithaseg yn y Gymraeg ar gyfer Lefel A (cyd-weithio gyda CBAC) a Blwyddyn 1 gellir datblygu.</p> <p>Cyd-weithio ar e-lawlyfr ar brif ddamcaniaethau cymdeithasol.</p> | <p>Cynhyrchu adnoddau newydd Cymdeithaseg yn y Gymraeg ar gyfer Lefel A (cyd-weithio gyda CBAC) a Blwyddyn 1.</p> <p>Cynhyrchu e-lawlyfr ar brif ddamcaniaethau cymdeithasol.</p> |
| Prifysgol Caerdydd | Myfyrwyr astudio 40 credyd | <p>0 myfyriwr yn astudio 40 credyd ym mhob blwyddyn.</p> <p>Datblygu darpariaeth er mwyn galluogi myfyrwyr i astudio 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg</p> | <p>0 leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.</p> <p>Datblygu darpariaeth er mwyn galluogi myfyrwyr i astudio 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> | <p>0 leiaf 15 myfyriwr yn astudio 40 credyd ym mhob blwyddyn.</p> |
| | Nifer Darlithwyr | 1 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | 1 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | 2 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | | | | |
|--|--------------------|--|---|--|
| | Darpariaeth | Hyd at 18 credyd yn BI1 a hyd at 9 credyd yn BI2. | Hyd at 20 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. | O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| | Modiwlau | Seminarau Cymraeg ar gael yn y modiwlau craidd y mae pob myfyriwr yn eu hastudio yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Cydweithio i ddatblygu modiwlau craidd ar y cyd â phrifysgolion eraill. | Seminarau Cymraeg ar gael yn y modiwlau craidd y mae pob myfyriwr yn eu hastudio yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Modiwlau craidd wedi eu datblygu ar y cyd â phrifysgolion eraill. Profiad gwaith mewn gweithle Gymraeg ar gael fel rhan o fodiwl. | Myfyriwr yn gwneud PhD drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| | Adnoddau | | Cydweithio ar ddatblygu'r Esboniadur. Cyd-baratoi adnodd i gefnogi sgiliau ymchwil ar gyfer Bagloriaeth. Ymchwilio pa adnoddau cyfrwng Cymraeg Cymdeithaseg y gellir eu datblygu ar gyfer Lefel A (cydweithio gyda CBAC) a Blwyddyn 1. | Cynhyrchu adnoddau newydd Cymdeithaseg yn y Gymraeg ar gyfer Lefel A (cyd-weithio gyda CBAC) a Blwyddyn 1. Cynhyrchu e-lawlyfr ar brif ddamcaniaethau cymdeithasol. |

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | <p>Cyd-weithio ar e-lawlyfr ar brif ddamcaniaethau cymdeithasol. Cydweithio i ddatblygu adnoddau Cymdeithaseg ar y cyd â phrifysgolion eraill.</p> | |
|--|--|--|--|--|